

Defnyddia dy Gymraeg

Ugain mlynedd ers yr atalnod yma,
bathodyn bach oren
sy'n neud yn haws
i ni gael siawns
i siarad,
i sgwrsio,
i gwestiynu,
neu i ddysgu ffaith
yn ein hiaith ein hunain.
Ond pwy ydw i
i sôn am sut mae plant
o Ynys Môn i Gaerdydd
yn defnyddio eu Cymraeg
o ddydd i ddydd?

Felly,
yn eu geiriau nhw,
dyma Plant Cymru
i atgyfnerthu neges
ein hiaith ni;

Mae rhywbeth anhygoel yn fy nghlust,
Fel adar yn canu yn y ffos.
"Bydd yn falch, bydd yn ddewr, defnyddia dy iaith!"
ein llais yw'r offeryn gorau yn y byd!

Does dim lot o bobl yn gallu 'neud e',
Mae'n galed a "gwahanol" i rhai,
Ond i mi, mae'n swinio'n arbennig.
Hebddi, fyddai'r wlad yma ddim yr un peth...

Mae fy hyder yn dawnsio ar fy nhafod
i brofi i bobl tu allan i'r ysgol
Mae gobaith mewn beth dwi'n gallu gwneud
a chred mewn beth rydw i'n ei ddweud.

Dwi'n ei dal mewn dwylo saff,
Does dim cansen na ffon, dim ond angerdd.
Roedd popeth yn y Saesneg? Pam?
Ond ni yw Dreigiau Maldwyn sydd am ledaenu'r fflam!

Dwi'n ei ddefnyddio yn yr YSGOL
ond yn Y CAFFI fyswn i'n sgwrsio,
yn y siopau, yn mhêldroed, yn yr eglwys neu yn rygbi,
Dwi'n ei glywed ar DELEDU ond O, i'w glywed yn NGHAERGYBI!

Rhywbeth mor fach
Yn ein gwneud ni mor falch.
Adra, yr ysgol,
unrhyw le tra bod,
Defnyddiwn ein collnod!

Pan mae pawb o'n cumpas yn siarad Cymraeg,
dwi'n siarad 'fyd.
Ac wrth ddysgu geiriau newydd dwi'n teimlo'n ffresh,
Fyddai'n braf cael siarad Cymraeg yn y siop,
Fyddai'n braf siarad Cymraeg yn Mangladesh.

Dw i'n teimlo'n hyderus er yn bryderus yn deud o,
ond yn hapus iawn iawn iawn iawn pan dwi'n neud o!
Dwi'n gallu egluro fy hunan yn well
yn mwa euraidd Caernarfon neu Lerpwl bell!

Hoffwn fynd nôl mewn amser yn fy het greadigol
morforynion a dreigiau a fi yn eu canol,
yn teimlo'n chwedlonol, anturus, drydanol,
yn fflipio a throelli gyda ffrindiau'n yr ysgol!

Ar lan môr neu ar ben mynydd,
'da ni'n siarad a sgwrsio hefo'n gilydd,
Wrth nofio, neidio neu gicio pêl,
gwên fawr ar ein wyneb, a dyna'r apêl.

Mae pawb yn dweud WAW ar beth dwi'n gallu gwneud
ar y cae neu ar lwyfan (neu ar Xbox, siawns!)
Yn rhannu syniadau neu mewn stori ar bapur,
yn gwenu fel llygoden gyda thwlpyn o gaws.

Ond mae gwlad heb iaith fel rhwyd heb bêl.
Does dim pwynt.
Ond os ydw i gyda'n ffrindiau
gallen ni ei basio'n nôl ac ymlaen,
Yn gweithio fel tîm i gadw'r iaith.

O ddarllen llyfrau yn y gwely
i'r cyffro cyn sioe yn y theatr,
Mae'r pili pala yn fy mola.
Dwi'n barod i agor fy ngheg,
a dyma fi'n siarad Cymraeg
ac yn plymio i fewn.

Dyma eu Cymraeg nhw.
Geiriau ein cenedlaeth nesaf yw
fod y Gymraeg
yn iaith fyw,
mae lliw, mae llif, mae ffydd.
O gopa'r Wyddfa
i draethau Gŵyr,
O Glawdd Offa
i Gantre'r Gwaelod,
O bob cwr o'r wlad hon,
gyda balchder yn dy fron,
o dy dafod i dy draed,
Defnyddia dy Gymraeg.

Bardd Plant Cymru Siôn Tomos Owen gyda
chymorth disgyblion ysgolion Amlwch,
Cemaes, Cybi, Llanfawr, Llangynnwr, Llanilar,
Llanystumdwy, Rhydaman, Santes Tudful,
Tirdeunaw, Trallwng, Treganna, Ynyswen

Cymraeg